

# **Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)**

Lodge Dental

Dyddiad yr arolygiad: 11 Hydref 2017

Dyddiad cyhoeddi: 17 Ionawr 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu**  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**  
**Llywodraeth Cymru**  
**Parc Busnes Rhyd-y-car**  
**Merthyr Tudful**  
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**E-bost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	7
	Ansawdd profiad y claf .....	8
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol .....	12
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	20
4.	Beth nesaf? .....	23
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	24
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	25
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith .....	27
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	28

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

## Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: mae profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn rhoi barn wrthrychol ar sail yr hyn yr ydym yn ei weld
- Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull o weithredu yn effeithlon, yn effeithiol ac yn gymesur

## Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Rhoi sicrwydd:

Darparu barn annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliannau trwy adrodd a rhannu arferion da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Lodge Dental, 10 Heol Trefynwy, y Fenni, NP11 5HH, ar 11 Hydref 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Bu AGIC yn archwilio sut roedd y practis yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod Lodge Dental yn darparu gofal diogel ac effeithiol ar gyfer ei gleifion.

Roedd y practis yn canolbwyntio ar y claf ac roedd ganddo'r polisïau a'r gweithdrefnau gofynnol ar waith i sicrhau bod y practis a'r staff yn cael eu cefnogi.

Argymhellwn fod pob aelod o staff sy'n dod i gysylltiad â chleifion yn cael hyfforddiant ar ddiogelu oedolion a phlant.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Mae'r practis wedi ymroddi i roi profiad cadarnhaol i gleifion.
- Gwelsom fod y staff yn rhyngweithio â chleifion mewn modd caredig a chwrtais.
- Er bod y practis wrthi'n ailwampio'r adeilad, roedd yr ardaloedd clinigol yn lân ac yn daclus, roedd ganddynt gyfarpar da, ac roeddent wedi'u cynnal a'u cadw'n dda.
- Yn ystod yr archwiliad, cymerodd y practis gamau gweithredu ar unwaith i ddatrys problemau cyn gynted ag y tynnwyd sylw atynt.

Gwnaethom argymell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae'r holl staff clinigol yn cael hyfforddiant ar reoli heintiau.
- Mae'r practis yn storio, dosbarthu ac yn gwaredu meddyginiaethau yn unol â'r canllawiau cyfredol.
- Mae'r ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol, gan gynnwys adroddiad archwilio critigol ac adroddiad gwasanaeth.

### 3. Yr hyn a ganfuom

#### **Cefndir y gwasanaeth**

Practis deintyddol preifat yn unig yw Lodge Dental.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys pedwar deintydd, dau hylenydd, pedair nyrs ddeintyddol, tri derbynnydd ac un rheolwr practis.

Darperir amrediad o wasanaethau deintyddol preifat.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Gwelsom dystiolaeth fod y practis wedi ymroddi i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Nododd y cleifion hynny a gwblhaodd yr holiadur eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth yr oeddent wedi eu derbyn.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 12 o holiaduron. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

*"Ni allaf feddwl am unrhyw ran o'r practis y gellid ei gwella"*

*"Rwyf yn eithaf hapus â'r ffordd y mae fy neintydd yn darparu fy ngofal deintyddol"*

*"Parhewch i wella systemau ar-lein, diolch"*

*"Practis hyfryd gyda staff cymwynasgar, bob amser yn gwrtais"*

## Cadw'n iach

Gan fod y practis wrthi'n ailwampio'r adeilad, ychydig iawn o ddewis o daflenni hybu iechyd a oedd ar gael yn yr ystafell aros. Cawsom ein hysbysu gan y rheolwr practis y byddai mwy o ddeunydd y cael ei ychwanegu, gan gynnwys posteri, pan fyddai'r gwaith ailwampio wedi'i gwblhau. Gwnaethom nodi bod amrywiaeth o daflenni hybu iechyd yn ystafell driniaeth yr hylenydd.

Roedd arwyddion 'dim ysmegu' wrth y brif fynedfa ac ar ddrws yr ystafell aros, a oedd yn cadarnhau bod pwys yn cael ei roi ar gydymffurfio â deddfwriaeth ddi-fwg.

Nododd pob claf ond un a gwblhaodd holiadur fod y tîm deintyddol wedi siarad ag ef ynghylch sut i gadw ei geg a'i ddannedd yn iach.



## **Gofal ag urddas**

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym ei fod wedi'i drin â pharch pan ymwelodd â'r practis. Gwelsom y dull proffesiynol a chyfeillgar a fabwysiadwyd gan staff wrth ymdrin â chleifion.

Roedd gan y practis fan derbynfa mawr agored, ond roedd ganddo drefniadau i ddiogelu preifatrwydd cleifion. Byddai cleifion yn cael eu cyfeirio at ystafell driniaeth wag, swyddfa rheolwr y practis neu, pan fyddai'r gwaith ailwampio wedi'i gwblhau, i le arall ar ben y grisiau o'r llawr daear os oedd yn briodol.

Roedd gan bob ystafell driniaeth ddeintyddol ddrysau y gellid eu cau, a oedd yn rhoi preifatrwydd ac urddas i gleifion pan oeddent yn derbyn triniaeth. Roedd ystafell driniaeth yr hylenydd ac un ystafell driniaeth ddeintyddol ar y llawr daear, gan olygu eu bod yn hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd.

## **Gwybodaeth i gleifion**

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym ei fod yn teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniadau a wnaed ynghylch ei ofal deintyddol, i'r graddau yr oedd yn dymuno. Dywedodd y cleifion hefyd eu bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael.

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur fod cost unrhyw driniaeth bob amser yn cael ei hesbonio'n glir iddo. Fodd bynnag, dywedodd traean o'r cleifion nad oeddent yn deall sut y cyfrifwyd cost eu triniaeth.

Gwelsom fod rhestri prisiau a oedd yn nodi costau triniaethau deintyddol preifat wedi'u harddangos yn y man aros a'r dderbynfa ac yn yr ystafelloedd triniaeth deintyddol.

## **Cyfathrebu'n effeithiol**

Nid oedd yr un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiaduron yn ystyried eu hunain yn siaradwr Cymraeg. Dywedodd yr holl gleifion wrthym eu bod yn gallu siarad â staff yn eu hiaith ddewisol bob amser.

## **Gofal amserol**

Canfuom fod y practis yn ymdrechu i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn sicrhau bod cleifion yn cael eu hysbysu pe bai deintydd yn rhedeg yn hwyr.

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem

ddeintyddol frys. Roedd y practis yn darparu'r wybodaeth hon ar ei beiriant ateb ac roedd wedi'i harddangos yn y dderbynfa a ger y brif fynedfa ar yr arwydd a oedd yn rhestru manylion y deintyddion a'r oriau agor.

## **Gofal unigol**

### **Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth**

Cadarnhaodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

### **Hawliau pobl**

Roedd gan y practis bolisi preifatrwydd, urddas a chyfrinachedd ar waith.

Roedd y brif fynedfa, yr ystafell aros a dwy ystafell driniaeth ar y llawr daear ac roeddent yn hygyrch i gleifion oedd ag anawsterau symudedd.

Roedd gan gleifion fynediad at gyfleusterau toiled y practis, a oedd hefyd ar y llawr daear. Byddem yn cynghori'r practis i osod rheiliau cynnal i gynorthwyo'r rheini ag anawsterau symudedd.

### **Gwrando a dysgu o adborth**

Dywedodd pob claf ond un a gwblhaodd holiadur y byddai'n gwybod sut i fynegi pryder neu gwyno am y gwasanaethau y mae'n ei dderbyn yn y practis deintyddol.

Roedd gan y practis bolisi cwyno a gweithdrefnau a oedd yn ymwneud â thriniaeth breifat a oedd yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008,<sup>1</sup> ond nid oeddent yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Pan dynnwyd sylw'r staff at hyn, cymerwyd camau unioni ar unwaith, ac roedd posterï diwygiedig wedi'u harddangos cyn diwedd yr arolygiad.

---

<sup>1</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made>

Roedd y practis yn annog adborth gan gleifion. Byddai'r staff yn gofyn am adborth gan gleifion trwy e-bost ar ôl iddynt dderbyn triniaeth. Yn ogystal, mae'r practis yn monitro ac yn casglu unrhyw adolygiadau ac adborth a roddir ar y cyfryngau cymdeithasol. Roedd blwch sylwadau a phapur hefyd yn yr ystafell aros. Gwnaeth y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur gadarnhau y gofynnir iddynt am eu safbwyntiau am y practis deintyddol – er enghraifft, trwy holiaduron i gleifion.

Caiff unrhyw adborth llafar a roddir i staff ei gofnodi yn nodiadau meddygol y claf. Os mai cwyn oedd yr adborth, byddai'r claf yn cael ei atgyfeirio i reolwr y practis. Gan fod y mwyafrif o'r adborth yn electronig, nid oedd gan y practis ffeil benodol. Argymhellir bod adborth cleifion yn cael ei gadw ar wahân i'w nodiadau meddygol a'i gofnodi mewn ffolder ar wahân, ynghyd ag ymateb a/neu gamau gweithredu'r practis lle y bo'n briodol. Byddai hyn yn galluogi'r practis i nodi unrhyw themâu ailadroddol. Rydym hefyd yn cynghori y dylai'r practis gadw llyfr nodiadau yn y dderbynfa i gofnodi unrhyw adborth a roddir gan gleifion ar lafar.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Argymhellwn fod y practis yn cychwyn ffeil bwrpasol i gofnodi'r holl adborth gan gleifion ynghyd â chamau gweithredu ac ymatebion y practis lle y bo'n gymwys.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth fod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd yr ystafelloedd triniaeth a ddefnyddiwyd yn lân ac wedi'u trefnu'n dda.

Roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu perthnasol.

Roedd y practis wrthi'n ailwampio'r adeilad, gan gynnwys darparu ystafelloedd triniaeth ychwanegol.

### **Gofal diogel**

#### **Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch**

Ar y cyfan, canfuom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a llesiant cleifion a oedd yn ymweld â'r practis a'r staff sy'n gweithio yn y practis.

Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol. Gwnaethom nodi bod sofffa ffabrig yn un o'r ystafelloedd triniaeth, a gwnaethom gynghori bod y ddeintyddfa'n datblygu protocol diheintio ar gyfer yr eitem o ddodrefn hon.

Roedd offerynnau a chyfarpar yn cael eu storio'n briodol yn yr ystafelloedd triniaeth, ond argymhellwn fod offer deintyddol pigog a ddefnyddir i dorri meinweoedd caled yn cael eu storio mewn pecynnau dan sêl sydd â dyddiad arnynt, yn yr un modd ag offerynnau a ddadhalogwyd.

Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy'n cael eu cynnal yn rheolaidd i helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn y practis. Roedd diffoddwyr tân ar bob llawr, ond oherwydd y gwaith ailwampio oedd ar droed, nid oedd y rheini ar y llawr cyntaf a'r ail llawr ynghlwm wrth y llawr neu'r wal. Argymhellwn fod trefniadau dros dro'n cael eu gwneud i glymu diffoddwyr tân yn sownd er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel. Gwelsom dystiolaeth fod y diffoddwyr tân yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd.

Roedd contractau ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig). Fodd bynnag, gwelsom fod deunyddiau gyda'u dyddiad wedi dod i ben yn cael eu gwaredu gyda'r gwastraff peryglus. Nid dyma'r weithdrefn gywir, oherwydd byddent yn cael eu hystyried yn wastraff nad yw'n beryglus. Argymhellwn fod y practis yn sicrhau y ceir gwared ar yr holl wastraff yn gywir.

Roedd gan y practis lyfr 'Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus' (RIDDOR), a oedd yn cynnwys manylion cyswllt a phrotocolau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Roedd polisi iechyd a diogelwch ar waith a gwnaethom nodi bod y poster iechyd a diogelwch, ynghyd â'r wybodaeth berthnasol, wedi'i arddangos.

Gwelsom fod deunyddiau glanhau'n cael eu storio mewn cwpwrdd heb ei gloi yn yr ystafell ddadheintio, a oedd hefyd heb ei chloi. Cynghorwn y dylai'r practis naill ai gloi'r drws neu symud y deunyddiau i gwpwrdd â chlo er mwyn sicrhau diogelwch cleifion. Roedd y cynhwysydd ar gyfer gwastraff clinigol wedi'i gloi ac yn ddiogel wrth ochr y practis.

Roedd ramp o'r maes parcio pwrpasol i'r brif fynedfa, gan wneud y practis yn hygyrch i'r rheini â phroblemau symudedd. Roedd un toiled deuryw ag arwydd uwch ei ben ar y llawr daear i staff a chleifion. Roedd i'w weld yn lân ac yn daclus.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Argymhellwn fod trefniadau'n cael eu gwneud i glymu'r diffoddwyr tân ar y llawr cyntaf a'r ail lawr tra bo gweithgareddau ailwampio ar droed, er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel ac na allant gael eu dymchwel.

Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn cael gwared â gwastraff yn y modd cywir, h.y. ddim yn cymysgu gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus.

Rhaid i'r practis sicrhau bod offer pigog yn cael eu storio mewn pecynnau dan sêl sydd wedi'u dyddio, yn yr un modd ag offer wedi'u dadheintio.

### Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau penodol ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol

Iechyd Cymru (WHTM) 01-05.<sup>2</sup> Roedd yr ystafell i'w gweld yn lân ac yn daclus a gwelsom dystiolaeth fod mesurau atal a rheoli heintiau ar waith. Gwnaethom nodi bod protocol ar gyfer ymdrin ag anafiadau nodwydd wedi'i storio mewn cwpwrdd yn yr ystafell ddadheintio. Mewn ymateb i'n hawgrymiad, symudwyd y protocol a'i arddangos ar y wal.

Gwnaethom nodi bod dŵr tap yn cael ei ddefnyddio yn ystod y broses ddadheintio i rinsio'r offer am y tro olaf. Argymhellwn fod y practis yn defnyddio dŵr wedi'i ddistyllio neu ddŵr wedi'i ïoneiddio ar gyfer y broses hon, yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Gwnaethom hefyd gynghori y dylai'r practis ystyried cael baddon uwchsonig ar gyfer glanhau offer cyn eu sterileiddio, yn unol â'r canllawiau.

Gwelsom dystiolaeth fod archwiliad rheoli heintiau wedi'i gynnal yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Rydym yn cydnabod bod hyn yn arfer da ac awgrymwn fod canlyniadau'r archwiliad yn cael eu hanfon at Ddeoniaeth Cymru i gael eu sylwadau.

Roedd gan y practis bolisi dadheintio ar waith. Gwnaethom nodi nad oedd gan y practis dystiolaeth o hyfforddiant rheoli heintiau cyfredol ar gyfer nifer o staff clinigol, ac argymhellwyd fod hyn yn cael ei unioni.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Argymhellwn fod y practis yn defnyddio dŵr wedi'i ddistyllio neu ddŵr wedi'i ïoneiddio i rinsio offer am y tro olaf, yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Rhaid i'r practis sicrhau bod gan yr holl staff clinigol dystysgrifau cyfredol sy'n dangos eu bod wedi cael hyfforddiant rheoli heintiau priodol, yn unol â gofynion cyfredol datblygiad proffesiynol parhaus.

### Rheoli meddyginiaethau

---

<sup>2</sup> Mae'r ddogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn darparu canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Roedd gan y practis weithdrefnau ar waith i ymdrin ag argyfyngau cleifion. Roedd swyddog cymorth cyntaf penodedig. Gwnaethom gynghori bod yr wybodaeth hon yn cael ei harddangos yn y practis fel bod staff a chleifion yn ymwybodol o hyn.

Nid oedd gan yr holl aelodau o staff dystysgrifau a oedd yn dangos eu bod wedi cael hyfforddiant priodol ar ddadebru cardio-anadlol yn ystod y deuddeg mis diwethaf. Yn ystod yr arolygiad, gwnaeth rheolwr y practis drefniadau i'r aelodau hynny o'r staff fynychu hyfforddiant ym mis Tachwedd 2017.

Gwelsom fod cyffuriau a chyfarpar brys yn cael eu storio'n briodol ac roedd tystiolaeth eu bod yn cael eu gwirio, yn unol â'r safonau a nodir gan Gyngor Dadebru'r DU.<sup>3</sup> Er hyn, gwnaethom sylwi yn ystod yr arolygiad fod un mwgwd wyneb â dyddiad defnyddio a oedd wedi mynd heibio. Gwnaethom dynnu sylw'r staff clinigol at hyn a chafodd ei dynnu ymaith ar unwaith.

Nid oedd gan y practis ddiffibriliwr allanol awtomatig ar y safle na mynediad at un. Gwnaethom argymhell y dylid cael gafael ar un a'i storio'n briodol. Cyn i'r arolygiad ddod i ben, nododd rheolwr y practis fod un wedi'i archebu.

Roedd y practis yn dosbarthu meddyginiaeth i gleifion. Ni welsom unrhyw dystiolaeth ddogfennol, fel presgripsiynau, a oedd yn nodi pa gyffuriau a ddosbarthwyd ac i bwy. Yn ogystal, nid oedd unrhyw dystysgrifau fferylllydd i nodi bod cyffuriau na ddefnyddiwyd neu hen gyffuriau wedi'u gwaredu'n gywir. Yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, argymhellwn fod yn rhaid i'r practis gael trefniadau priodol ar waith ar gyfer cofnodi'r broses o gael, cofnodi, trin, defnyddio, cadw'n ddiogel, dosbarthu, gweinyddu'n ddiogel a chael gwared ar feddyginiaethau a ddefnyddir yn neu at ddibenion y practis deintyddol preifat.

---

<sup>3</sup> [Mae'r Cyngor Dadebru \(DU\)](#) yn bodoli i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis wneud trefniadau priodol ar gyfer cofnodi'r broses o gael, cofnodi, trin, defnyddio, cadw'n ddiogel, dosbarthu, gweinyddu'n ddiogel a chael gwared ar feddyginiaethau a ddefnyddir.

### Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Gwelsom fod gan y practis bolisiâu a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion agored i niwed. Yn ystod yr arolygiad, llenwodd rheolwr y practis y polisi â manylion cyswllt pob tîm diogelu lleol perthnasol. Gwelsom dystysgrifau'n cadarnhau bod yr holl staff clinigol wedi derbyn hyfforddiant priodol. Dylai staff y dderbynfa gael hyfforddiant diogelu gan mai nhw yw'r pwynt cyswllt cyntaf yn aml i gleifion.

Dywedwyd wrthym fod gwiriadau cyn-gyflogi'n cael eu cynnal ar unrhyw aelodau newydd o staff, a gwelsom dystysgrifau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y rhan helaeth o'r staff clinigol. Ni allai'r practis gyflwyno'r dystysgrif ar gyfer y prif ddeintydd ac roedd cais un nyrs ddeintyddol yn cael ei brosesu ar hyn o bryd.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Staff y dderbynfa i gael hyfforddiant diogelu plant ac oedolion.

Rhaid i'r practis sicrhau bod gan bob deintydd sy'n darparu triniaeth ddeintyddol breifat dystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod yr ystafelloedd triniaeth yn cynnwys offer priodol ar gyfer diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol. Gwelsom fod yr ystafelloedd triniaeth a'r offer yn lân iawn ac mewn cyflwr da. Roeddent hefyd wedi'u gosod mewn modd a oedd yn sicrhau bod yr offer ymbelydredd yn cael eu defnyddio'n ddiogel.



Roedd yr holl staff clinigol wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol, yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol<sup>4</sup> a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000. Roedd y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd yn cael ei chadw, ond nid oedd yn gyflawn. Nid oedd y dogfennau canlynol yn y ffeil:

- Contract gyda chynghorydd diogelu rhag ymbelydredd
- Adroddiadau archwilio critigol manwl, gan gynnwys dosiau a chyfeiriad y pelydren / y parth rheoli
- Adroddiad gwasanaethu ar gyfer y peiriant pelydr-X digidol

Yn dilyn yr arolygiad, cadarnhaodd y practis fanylion ei gynghorydd diogelu rhag ymbelydredd ac fe ddarparodd yr adroddiadau archwilio critigol a'r adroddiadau gwasanaethu ar ein cyfer.

Ni wnaethom weld unrhyw dystiolaeth fod y practis wedi cynnal archwiliadau sicrhau ansawdd lluniau pelydr-X.

## **Gofal effeithiol**

### **Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Argymhellwn fod y practis yn rhoi rhaglen ar waith ar gyfer cynnal amrediad eang o archwiliadau clinigol, gan gynnwys sicrhau ansawdd lluniau, cofnodion meddygol ac adolygiadau cymheiriaid, gyda'r nod o nodi meysydd i'w gwella.

#### **Yr hyn y mae angen ei wella**

Argymhellwn fod y practis yn rhoi rhaglen ar waith ar gyfer cynnal amrediad eang o archwiliadau clinigol, gan gynnwys sicrhau ansawdd lluniau, cofnodion meddygol ac adolygiadau cymheiriaid.

---

<sup>4</sup> Cyngor Deintyddol Cyffredinol – <http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx>

## Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gan y practis gyfuniad o gofnodion papur ac electronig. Roedd cofnodion papur yn cael eu storio mewn ystafell heb ei chloi. Argymhellwn fod y drws hwn yn cael ei gadw ar glo er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Roedd data electronig yn cael ei gadw'n rheolaidd a'i storio oddi ar y safle. Roedd y mynediad at sgriniau cyfrifiaduron yn ddiogel a chyfrinachgar.

Nid oes gan y practis unrhyw system ar waith ar hyn o bryd i fonitro atgyfeiriadau cleifion at ofal eilaidd. Argymhellwn fod proses yn cael ei rhoi ar waith i sicrhau bod atgyfeiriadau o'r fath yn cael eu monitro a'u dilyn os oes angen.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r practis sicrhau bod y drws i gael mynediad at y cofnodion meddygol yn cael ei gadw ar glo.

Argymhellwn fod y practis yn datblygu system ar gyfer monitro atgyfeiriadau cleifion at ofal eilaidd.

## Cadw cofnodion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion. Ar y cyfan, canfuom fod y gwaith o gadw cofnodion a rhoi gofal i gleifion o ansawdd eithaf da. Gwnaethom ganfod ar adegau fod rhai pethau ar goll, fel y ffaith nad oedd unrhyw gofnod o'r canlynol:

- Cyfiawnhad am ddefnyddio pelydrau-X
- Lefelau archwiliadau peridontol sylfaenol (BPE)<sup>5</sup>
- Hanes cymdeithasol claf, gan gynnwys ei ddefnydd o alcohol

---

<sup>5</sup> Mae asesiad gofalus o'r meinweoedd peridontol yn gydran hanfodol o reoli cleifion. Defnyddir yr archwiliad periodontol sylfaenol (BPE) fel dull sgrinio sylfaenol i wirio statws periodontol claf.

- Cydsyniad cleifion i driniaeth
- Sgrinio am ganser
- Hanesion meddygol wedi'u llofnodi gan y claf a'u cydlofnodi gan y clinigydd

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Er mwyn cydymffurfio â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, dylai'r practis sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cwblhau yn ystod pob ymweliad claf er mwyn cofnodi:

- Cyfiawnhad am ddefnyddio pelydrau-X
- Lefelau archwiliadau peridontol sylfaenol (BPE)
- Hanes cymdeithasol claf, gan gynnwys ei ddefnydd o alcohol
- Cydsyniad cleifion i driniaeth
- Sgrinio am ganser
- Hanesion meddygol wedi'u llofnodi gan y claf a'u cydlofnodi gan y deintydd

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat a'r safonau proffesiynol perthnasol.*

Roedd y gwaith o reoli'r practis o ddydd i ddydd yn cael ei gyflawni gan reolwr y practis.

Canfuom fod gan y practis systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y practis a'r staff yn cael cefnogaeth a'u bod yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i gleifion.

Roedd angen i'r practis gyflwyno system arfarnu ffurfiol er budd ei staff.

## Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Y prif ddeintydd sy'n berchen ar Lodge Dental Practice, ac mae'n gweithio yno'n rhan-amser, gan dreulio gweddill ei amser yn y chwaer-bractis yn New Inn.

Canfuom fod gan y practis arweinyddiaeth dda iawn ac roedd y staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Roedd y gwaith o reoli'r practis o ddydd i ddydd yn cael ei gyflawni gan reolwr y practis. Gwelsom berthynas dda rhwng staff y practis.

Roedd y practis wedi'i drefnu'n dda, a gwaith da'n cael ei gynnal o ran cadw cofnodion yn y rhan fwyaf o feysydd. Gwelsom fod amrywiaeth eang o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith i sicrhau diogelwch staff a chleifion. Yn ogystal â chael ffolder a oedd yn cynnwys yr holl bolisiâu, roedd y practis hefyd yn arddangos polisiâu perthnasol, e.e. polisi cyfarpar diogelu personol a gweithdrefnau cludo a glanhau â llaw ym mhob ystafell driniaeth. Byddem yn cynghori'r practis i roi dyddiadau cyhoeddi ac adolygu ar bob polisi, gan sicrhau bod pob un ohonynt yn gyfredol a bod staff yn ffyddiog bod ganddyn nhw fynediad at yr wybodaeth a'r canllawiau mwyaf perthnasol/cyfredol. Cynghorir

hefyd fod staff yn llofnodi pob dogfen er mwyn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth.

Gwnaethom nodi er bod gan y practis bolisi amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion ar y cyd, nid oedd yn cynnwys manylion y timau diogelu lleol.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Argymhellir, er cysondeb, y dylai'r holl bolisiau gynnwys dyddiadau cyhoeddi ac adolygu ac y cedwir cofnodion i ddangos p'un a ydynt wedi cael eu darllen gan yr holl staff.

## Staff ac adnoddau

### Y gweithlu

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd tystysgrifau AGIC y deintyddion wedi'u harddangos yn ôl gofyniad Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Mae'r practis yn cynnal cyfarfodydd staff rheolaidd a chaiff cofnodion eu creu ar eu hôl. Dywedwyd wrthym hefyd fod y nyrsys deintyddol yn cynnal cyfarfodydd anffurfiol hefyd i drafod materion sy'n ymwneud â'u rôl. Gwelsom dystiolaeth fod gan y practis raglen ymsefydlu ac roedd tystiolaeth o arfarniadau staff, ond dywedwyd wrthym nad oedd y rhain yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Argymhellwn fod y practis yn cyflwyno proses arfarnu ffurfiol a rheolaidd ar gyfer holl staff y practis.

Mae angen imiwneiddio staff clinigol rhag hepatitis B er mwyn diogelu'r cleifion a'u hunain rhag heintiau.<sup>6</sup> Ni allai'r practis ddarparu tystiolaeth o imiwneiddio o ran y cofnodion imiwneiddio ar gyfer dau aelod o'r staff clinigol, dim ond nodi eu bod wedi cael y brechiad. Rhaid i'r practis gael cadarnhad fod gan yr holl staff clinigol yr imiwneidd angenrheidiol rhag hepatitis B.

---

<sup>6</sup> Cylchlythyr Iechyd Cymru (2007) 086

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod y mwyafrif o'r staff wedi mynychu hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w swyddi ac roedd hyn yn bodloni gofynion datblygiad proffesiynol parhaus. Roedd eithriadau, fodd bynnag, a gwnaethom nodi nad oedd gan yr holl staff clinigol hyfforddiant cyfredol ar reoli heintiau, y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) na dadebru cardio-anadlol.

Mae'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat yn gofyn i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat gael tystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gyflwynwyd yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Roedd gan y rhan fwyaf o'r staff clinigol dystysgrif gyfredol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis gael cadarnhad fod gan yr holl staff clinigol yr imiwnedd angenrheidiol rhag hepatitis B.

## 4. Beth nesaf?

Mae'r gwelliannau a'r pryderon uniongyrchol rydym wedi eu nodi yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon o ran diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad.
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd o ran diogelwch cleifion lle'r ydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Yn cynnwys digon o fanylion i sicrhau AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws meysydd eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rydym yn rhoi rhybudd cyn cynnal arolygiad o bractis deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd cyn arolygiad. Mae hyn fel y bydd trefniadau yn gallu cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o amhariad â phosibl i gleifion.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Bydd unrhyw ddeintydd yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn destun darpariaethau [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2008](#) a [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) \(Diwygio\) 2011](#). Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Datguddio Meddygol\) 2000](#), ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Mae manylion pellach am sut mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a [gwasanaethau gofal iechyd annibynnol](#) ar ein gwefan.



## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen mynd i'r afael â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Nid oedd polisi cwynion y practis na'r gweithdrefnau a oedd yn ymwneud â thriniaeth ddeintyddol breifat yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer yr awdurdod cofrestru, sef Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.	Mae'n bosibl na fydd cleifion yn gallu atgyfeirio pryder neu gwyn at yr awdurdod cofrestru.	Cafodd rheolwr y practis wybod am yr wybodaeth goll hon yn ystod yr arolygiad.	Cafodd y polisi ei ddiwygio cyn diwedd yr adolygiad.
Nid oedd yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant priodol ar ddadebru cardio-anadlol o fewn y 12 mis diwethaf.	Mae'n bwysig fod staff yn cael eu hyfforddi i ymdrin ag argyfyngau meddygol cleifion, gan gynnwys dadebru, a bod ganddynt dystiolaeth gyfredol o'u gallu.	Cafodd rheolwr y practis wybod am hyn yn ystod yr arolygiad.	Gwnaeth rheolwr y practis gofrestru'r staff ar gwrs hyfforddi priodol.
Nid oedd unrhyw ddiffibriliwr allanol awtomatig ar y safle ac nid oedd gan y	Mae'n bwysig fod y cyfarpar priodol ar gael wrth ymdrin ag	Cafodd rheolwr y practis wybod	Ar ddiwedd yr arolygiad, dangosodd rheolwr y practis e-

<p>practis fynediad at un.</p>	<p>argyfwng meddygol claf.</p>	<p>am hyn yn ystod yr arolygiad.</p>	<p>bost i ni a oedd yn cadarnhau bod diffribiliwr wedi'i archebu i'w osod yn y practis.</p>
<p>Roedd y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd yn cael ei chadw, ond nid oedd yn gyflawn. Nid oedd y dogfennau canlynol yn y ffeil:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Contract gyda chynghorydd diogelu rhag ymbelydredd</li> <li>• Adroddiadau archwilio critigol manwl, gan gynnwys dosiau a chyfeiriad y pelydryn / y parth rheoli</li> <li>• Adroddiad gwasanaethu ar gyfer y peiriant pelydr-X digidol</li> </ul>	<p>Er mwyn amddiffyn a diogelu staff a chleifion, mae angen i'r practis sicrhau bod offer yn cael eu cynnal a chadw a'i fod yn cadw'r dogfennau perthnasol.</p>	<p>Cafodd rheolwr y practis wybod am yr hyn oedd ar goll o'r ffeil yn ystod yr arolygiad.</p>	<p>Yn dilyn yr arolygiad, anfonodd rheolwr y practis gopïau o'r tystysgrifau a'r dogfennau perthnasol atom.</p>

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** Lodge Dental

**Dyddiad yr arolygiad:** 11 Hydref 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw broblemau sicrwydd ar unwaith.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):**

**Swydd:**

**Dyddiad:**

Tudalen 27 o 33

## Atodiad C – Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** Lodge Dental

**Dyddiad yr arolygiad:** 11 Hydref 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Dylai'r practis gychwyn ffeil bwrpasol i gofnodi'r holl adborth gan gleifion ynghyd â chamau gweithredu ac ymatebion y practis lle y bo'n gymwys.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008  Rheoliad 16	Mae ffeil wedi'i chychwyn i gofnodi adborth cyffredinol. Caiff y ffeil ei hadolygu'n rheolaidd gan dîm rheoli'r practis.	Chris Lodge	Tachwedd 2017
<b>Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol</b>				
Argymhellwn fod trefniadau'n cael eu gwneud i glymu'r diffoddwyr tân ar y llawr cyntaf a'r ail	Rheoliadau Deintyddiaeth	Mae pob diffoddydd tân wedi'i ailglymu i'r waliau.	Chris Lodge	Hydref 2017

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
lawr tra bo gweithgareddau ailwampio ar droed, er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel ac na allant gael eu dymchwel.	Breifat (Cymru) 2008 Rheoliad 14 (1) (d)			
Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn cael gwared â'i wastraff yn y modd cywir, h.y. ddim yn cymysgu gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 Rheoliad 14	Mae'r gweithdrefnau wedi'u diwygio a'u rhoi ar waith i sicrhau bod yr holl ddeunyddiau gyda'u dyddiad wedi dod i ben yn cael eu gwaredu'n gywir ac nid gyda'r gwastraff peryglus.	Chris Lodge	Tachwedd 2017
Rhaid i'r practis sicrhau bod offer pigog yn cael eu storio mewn pecynnau dan sêl sydd wedi'u dyddio, yn yr un modd ag offer wedi'u dadheintio.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 Rheoliad 14 (4)	Mae blociau offer pigog wedi'u prynu. Caiff yr holl offer pigog eu storio yn y blociau hyn a chânt bellach eu cadw mewn hambwrdd offer mewn pecynnau dan sêl.	Jan Porter	Hydref 2017
Argymhellwn fod y practis yn defnyddio dŵr wedi'i ddistyllu neu ddŵr wedi'i ïoneiddio i rinsio offer am y tro olaf.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 Rheoliad 14 (4) Memorandwm Technegol Iechyd	Defnyddir dŵr wedi'i ddistyllu nawr i rinsio'r offer am y tro olaf.	Jan Porter	Hydref 2017

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Cymru 01-05			
Rhaid i'r practis sicrhau bod gan yr holl staff clinigol dystysgrifau cyfredol sy'n dangos eu bod wedi cael hyfforddiant rheoli heintiau priodol, yn unol â gofynion cyfredol datblygiad proffesiynol parhaus.	Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol – Datblygiad Proffesiynol Parhaus	Mae pob clinigydd wedi cwblhau hyfforddiant rheoli heintiau priodol bellach ac mae'r tystysgrifau wedi'u rhoi i reolwr y practis a'u ffeilio yn ffolderi unigol y staff.	Helen Knifton	Hydref 2017
Rhaid i'r practis wneud trefniadau priodol ar gyfer cofnodi'r broses o gael, cofnodi, trin, defnyddio, cadw'n ddiogel, dosbarthu, gweinyddu'n ddiogel a chael gwared ar feddyginiaethau a ddefnyddir.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008  Rheoliad 14 (2)	Mae trefniadau ar waith bellach ar gyfer ymdrin â meddyginiaethau ac mae'r holl staff perthnasol wedi cwblhau hyfforddiant. Gweler y polisi atodedig. Mae ein contractwyr gwaredu gwastraff, Professional Hygiene, yn darparu bin fferyllol glas bellach, ar gyfer gosod a chasglu'r holl feddyginiaethau y mae eu dyddiad wedi dod i ben.	Chris Lodge	Tachwedd 2017
Staff y dderbynfa i gael hyfforddiant diogelu plant ac oedolion.	Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol – Datblygiad Proffesiynol Parhaus	Bydd holl staff y dderbynfa'n cael hyfforddiant diogelu plant ac oedolion ym mis Ionawr 2018.	Helen Knifton	Ionawr 2018

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r practis sicrhau bod gan bob deintydd sy'n darparu triniaeth ddeintyddol breifat dystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008</p> <p>Rheoliadau 6 a 13 (3) (a)</p>	<p>Bydd y practis yn sicrhau bod gan bob deintydd dystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Bydd cais Stephen Lodge ar gyfer tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael ei gyflwyno ar unwaith, a bydd y dystysgrif yn cael ei rhoi i AGIC.</p>	<p>Chris Lodge</p>	<p>Ionawr 2018</p>
<p>Argymhellwn fod y practis yn rhoi rhaglen ar waith ar gyfer cynnal amrediad eang o archwiliadau clinigol, gan gynnwys sicrhau ansawdd lluniau, cofnodion meddygol ac adolygiadau cymheiriaid.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008</p> <p>Rheoliad 14 (2)</p>	<p>Bydd rhaglen yn cael ei llunio i gynnal archwiliadau clinigol, cofnodion meddygol ac adolygiadau cymheiriaid yn ystod 2018. Mae'r practis yn bwriadu defnyddio'r archwiliadau a ddarperir gan Ddeoniaeth Cymru.</p>	<p>Chris Lodge</p>	<p>Ionawr 2018</p>
<p>Mae angen i'r practis sicrhau bod y drws i gael mynediad at y cofnodion meddygol yn cael ei gadw ar glo.</p>	<p>Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol</p> <p>Safon 20</p>	<p>Mae clo wedi'i osod ar y drws.</p>	<p>Chris Lodge</p>	<p>Tachwedd 2017</p>
<p>Mae angen i'r practis ddatblygu system ar gyfer</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth</p>	<p>Cedwir llyfr atgyfeirio ar ddesg y brif dderbynfa, a chaiff holl fanylion yr</p>	<p>Helen Knifton</p>	<p>Tachwedd</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
monitro atgyfeiriadau cleifion at ofal eilaidd.	Breifat (Cymru) 2008  Rheoliad 14 (1) (a)	atgyfeiriad eu cofnodi a'u monitro.		2017
<p>Er mwyn cydymffurfio â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, dylai'r practis sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cwblhau yn ystod pob ymweliad claf er mwyn cofnodi:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfiawnhad am ddefnyddio pelydrau-X</li> <li>• Lefelau archwiliadau peridontol sylfaenol (BPE)</li> <li>• Hanes cymdeithasol claf, gan gynnwys ei ddefnydd o alcohol</li> <li>• Cydsyniad cleifion i driniaeth</li> <li>• Sgrinio am ganser</li> <li>• Hanesion meddygol wedi'u llofnodi gan y claf a'u cydlofnodi gan y deintydd</li> </ul>	Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol: Safonau ar gyfer y Tîm Deintyddol  Safon 4.1	<p>Mae'r holl ddeintyddion wedi cael manylion llawn ynghylch y gofynion o ran cadw cofnodion a bydd archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal i sicrhau cysondeb ac ansawdd yr holl gofnodion a gedwir.</p> <p>Mae'r holiadur hanes meddygol wedi'i ddiweddarau i gynnwys hanes cymdeithasol llawn, a chaiff ei gydlofnodi gan y deintydd.</p>	Helen Knifton	Rhagfyr 2017
<b>Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth</b>				
Argymhellir, er cysondeb, y dylai'r holl bolisiâu gynnwys dyddiadau cyhoeddi ac adolygu ac y	Rheoliadau Deintyddiaeth	Mae dyddiadau cyhoeddi ac adolygu wedi'u hychwanegu at bob polisi a bydd	Helen Knifton	Tachwedd



Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
cedwir cofnodion i ddangos p'un a ydynt wedi cael eu darllen gan yr holl staff.	Breifaf (Cymru) 2008 Rheoliad 14 (1) a (2)	cofnodion yn cael eu cadw i ddangos bod y staff wedi darllen y polisi.		2017
Rhaid i'r practis gael cadarnhad fod gan yr holl staff clinigol yr imiwnedd angenrheidiol rhag hepatitis B.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifaf (Cymru) 2008 Rheoliad 14 (1) (d) a (2)	Mae'r practis wedi cael cadarnhad fod gan yr holl staff clinigol yr imiwnedd angenrheidiol rhag hepatitis B.	Helen Knifton	Tachwedd 2017

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras): Chris Lodge**

**Swydd: Rheolwr y Practis**

**Dyddiad: 8 Rhagfyr 2017**